



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	26 Mai 2021
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2020/21 – Alldro Refeniw
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. PENDERFYNIAD

- 1.1 **Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2020/21 yma fel Atodiad 1**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro".
- 1.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2020/21 er mwyn galluogi Adran Gyllid yr awdurdod lletya i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn, cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.
- 1.3 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo trosglwyddiad ariannol i neilltuo tanwariant 2020/21 o (£83,326) i gronfa wrth gefn GwE.

2. CEFNDIR

- 2.1 Adroddir ar sefyllfa terfynol o dan-wariant net o (£83,326) yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil tanwariant un tro ar y gyllideb Costau Teithio.
- 2.2 Bu symudiad o (£40,821) i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif tanwariant o (£42,505), gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 Gweithwyr:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £2,261 Chwarter 3: Gorwariant £18,455

Gorwariant yn bennaf oherwydd cost diswyddo 2 aelod o staff oedd ar gontractau dros-dro ond gyda gwasanaeth o'u cyflogaeth blaenorol. Mae'r gorwariant wedi lleihau yn sgil arbediad ar gostau staffio, gan gynnwys secondiadau staff.

3.2 Rhent:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £43,278 Chwarter 3: Gorwariant £58,080

Sefyllfa terfynol yw gorwariant oherwydd diffyg incwm rhent am ddefnydd adeiladau GwE yn sgil yr argyfwng Covid-19. Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael ei ariannu drwy grantiau. Gan nad yw'r incwm yn allanol, ni ellir hawlio grant digolledu o gronfa caledi Llywodraeth Cymru. Mae'r gorwariant wedi lleihau, oherwydd arbediad uwch na'r disgwyl ar gostau gwasanaethu'r adeiladau gan gynnwys costau trydan a chynnal a chadw.

3.3 Cludiant:

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£120,718) Chwarter 3: Tanwariant (£120,145)

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3, sef tanwariant oherwydd diffyg teithio yn ystod y cyfnod clo. Erbyn hyn mae ymweliadau ysgol wedi ailgychwyn, a felly ni ddisgwylir tanwariant cyfatebol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

3.4 **Prosiectau Penodol:**

Sefyllfa Terfynol: Niwtral Chwarter 3: Niwtral

Yn ystod Mis Chwefror a Mis Mawrth fe dderbyniwyd llythyrau amrywio gan Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai cyfnod gwario y “Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol” a'r “Grant Datblygu Disgyblion” ar gyfer y flwyddyn ariannol 20/21 yn cael ei ymestyn hyd at 31 Awst 2021. Penderfynwyd hyn yn sgil pryderon na fyddai'r Awdurdodau ac Ysgolion yn cael y defnydd gorau o'r grantiau os oedd angen eu gwario'n llawn erbyn 31 Mawrth 2021, a gan ddisgwyl tanwariant sylweddol. Golyga'r estyniad ein bod yn adrodd ar sefyllfa niwtral ar gyfer y grantiau yn y flwyddyn ariannol 20/21, gyda'r cynllun i wario unrhyw danwariant sydd yn cael ei gario drosodd i 21/22 erbyn 31 Awst 2021. Nid oes disgwyliad y bydd hyn yn effeithio ar gynlluniau grantiau yn y flwyddyn ariannol 21/22.

4. **CRONFA TANWARIANT**

- 4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd (£480,204).
- 4.2 Mae'r tanwariant net o (£83,326) i'w drosglwyddo, yn cynyddu'r gronfa wrth gefn i (£563,530) ar ddiwedd 2020/21.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2020/21.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.